# YMWELIAD DATBLYGU MASNACH RHITHWIR - CANADA

Mawrth 2021

Sectorau Allweddol

Bwyd a Diod

**Dyddiad Cau:**
8 Ionawr 2021

Mynd â Chymru i'r Byd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Y Cynnig

Rydym yn gwahodd ceisiadau oddi wrth aelodau Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru i gymryd rhan yn Ymweliad Datblygu Masnach rhithwir yn targedu Canada, a gefnogir gan Bwyd a Diod Cymru.

Mae'r cytundeb diweddar rhwng y DU a Chanada yn gwneud dyfodol masnachu'r DU â Chanada yn edrych yn ddisglair iawn.

Bydd y dull rhithwir hwn yn rhoi cyfle i chi gwrdd â darpar brynwyr, dosbarthwyr a mewnforwyr trwy fideo-gynadledda heb orfod ymrwymo cymaint o'ch amser gwerthfawr ag y mae Ymweliad Datblygu Masnach llawn yn ei olygu.

## Pam Canada?

- Bydd y dêl fasnach rhwng DU-Canada yn sicrhau masnachu di-dariff ar 98% o nwyddau *
- Roedd cyfanswm y fasnach rhwng y DU a Chanada werth £ 19.9 biliwn yn y pedwar chwarter hyd at ddiwedd Ch1 2020 *
- Mae diwylliant busnes Canada yn debyg iawn i'r DU ac mae'r gyfraith mewn 9 o'r taleithiau yn seiliedig ar gyfraith gwlad Lloegr.
- Mae Canadiaid yn ystyried cynhyrchion bwyd a diod o'r DU fel cynhyrchion o ansawdd uchel ac yn croesawu cynhyrchion premiwm.
- Mae Canadiaid eisoes yn cydnabod llawer o frandiau'r DU sydd â rhestrau mewn archfarchnadoedd mawr, siopau cyffuriau a gorsafoedd petrol.
- Mae gan Ganada sawl cenhedlaeth sydd o'r DU yn wreiddiol.

*Ffynhonnell y wybodaeth: Exporting Is Great

## Cymhwyster

Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach rithwir hwn yn agored i allforwyr newydd a phrofiadol i'r rhanbarth hwn.

Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach Rhithiol hwn wedi'i gyfyngu i 8 cais.
Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein.



## Rhai Pethau i'w Hystyried

Mae Canada yn rhychwantu chwe pharth amser ac yn dibynnu ar y lleoliad gall fod rhwng 3 a 7 awr y tu ôl i'r DU, felly bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn barod ar gyfer cyfarfodydd prynwyr y tu allan i'r diwrnod gwaith arferol.

Mae Canada yn wlad ddwyieithog gyda Saesneg a Ffrangeg yn cael eu cydnabod fel yr ieithoedd swyddogol. Er bod Saesneg yn cael ei siarad yn eang ledled Canada, byddwch yn ymwybodol, os ydych chi'n gwneud busnes yn Québec, mai Ffrangeg yw'r iaith fusnes ac mae'r gyfraith yn seiliedig ar gyfraith sifil Ffrainc.

Os bydd darpar brynwr yn gofyn am samplau cyn neu ar ôl cyfarfod, byddwch chi yn gyfrifol am anfon y samplau a'r holl gostau cludo cysylltiedig. Disgwylir i gynhyrchwyr ymateb i geisiadau am wybodaeth bellach neu samplau mewn modd amserol.

Er nad oes unrhyw gost i gymryd rhan yn yr Ymweliad Datblygu Masnach rithwir hwn, bydd peidio â mynychu, neu dynnu'n ôl o'r Ymweliad Datblygu Masnach rithwir ar ôl i'r gwaith ddechrau, yn golygu eich bod yn atebol am unrhyw gostau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru.

Mae ymatebion hwyr i geisiadau am wybodaeth bellach a pheidio â chymryd rhan mewn cyfarfodydd prynwyr a archebwyd ymlaen llaw yn niweidiol iawn i'r cynhyrchwyr, ond hefyd i sector bwyd a diod Cymru yn ei gyfanrwydd. Felly, mae disgwyl i'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan ymrwymo i'r broses gyfan a gweithredu fel "llysgenhadon" ar gyfer sector bwyd a diod Cymru.

## Dyddiadau Allweddol

Bydd gennych alwadau gyda'r partner penodedig yn y farchnad yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 1 Chwefror 2021.

Bydd Briff Marchnad yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 22 Chwefror 2021.

Bydd cyfarfodydd un i un gyda phrynwyr, mewnforwyr a dosbarthwyr cyn-gymhwyso yn cael eu cynnal yn ystod mis Mawrth 2021.

Mae'r Ymweliad Datblygu Masnach Rhithiol hwn wedi'i gyfyngu i 8 cais.
Defnyddiwch y ddolen hon ar gyfer y ffurflen gais ar-lein.